

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015–2030
ARCHWILIAD CYHOEDDUS

Mater 14 Sesiwn y Gwrandawriad

Dydd Gwener 14 Mai 2021

Llety i Sipsiwn a Theithwyr

HN8.1 Magazine Lane, Ewlo

HN8.2 Gwern Lane, Yr Hôb

HN8.3 Glan yr Afon, Queensferry

HN8.4 Ystâd Ddiwydiannol Parc Y Castell, Y Fflint

HN9 Meini Prawf ar gyfer Safleoedd Newydd

Datganiad Gwrandawriad gan Gyngor Sir y Fflint

23/04/21

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 – 2030) Archwiliad Cyhoeddus

Datganiad Cyngor Sir y Fflint: Mater 14: Llety i Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi gan Gyngor Sir y Fflint (CSFf) mewn ymateb i gwestiynau gwrandawriad yr Arolygwyr

Mater Allweddol:

A fydd y dyraniadau arfaethedig yn diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir? A yw'r asesiadau ar gyfer safleoedd / lleiniau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chredadwy? A oes modd cyflawni'r dyraniadau?

Ymateb:

1. Mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi dilyn proses resymegol o asesu'r safleoedd sydd ar gael iddo ac wedi nodi set o dri dyraniad safle preswyl a safle tramwyl yr ystyrir eu bod yn gynaliadwy, yn hyfwrdd ac yn gyflawnadwy. Mae hefyd yn wir bod yr holl ddarpariaeth ar ffurf estyniadau i safleoedd sefydledig a chymeradwy ar gyfer lleiniau preswyl. Mae'r safle tramwyl yn cael ei gynnig ar safle tir llwyd, yn cynnwys hen safle ailgylchu amwynderau dinesig ger ystâd ddiwydiannol ac mae'n agos at brif lwybr teithio. Mae'r sefyllfa ar ddau o'r safleoedd a ddyrannwyd (Ewlo ac Yr Hôb) wedi newid ers ymgynghori â'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, ac ystyrir bod hyn yn welliant ym mhob achos. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd y dyraniadau'n diwallu'r angen a nodwyd yn y GTAA ar gyfer cyfnod y Cynllun. At hynny, mae'r Cynllun yn ymgorffori dull sy'n seiliedig ar feini prawf i ystyried cynigion datblygu eraill sy'n codi yn ystod cyfnod y Cynllun.

Cwestiwn a) A yw Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) cymeradwy yn ddigon cadarn i lywio strategaeth y CDLI?

Ymateb y Cyngor:

- a.1 Fel yr esboniwyd yn C25 Ymateb y Cyngor i Gwestiynau Rhagarweiniol yr Arolygwyr [FCC001](#), mae gan y Cyngor GTAA [LDP-EBD-HP7](#) wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Er i'r Cyngor wneud diweddariad dilynol i'r GTAA, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ei gymeradwyo gan nad oedd yn Astudiaeth lawn. Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod GTAA 2016 yn parhau i fod yn sylfaen ddilys ar gyfer pennu angen dros gyfnod y Cynllun ac at ddibenion Archwilio'r CDLI. Cyhoeddodd y Cyngor Adendwm i'w bapur cefndir [LDP-EBD-BP6.1](#) i'r perwyl hwn. Yr angen a nodwyd gan y Sir am leiniau preswyl yw -4 llain am y cyfnod 5 mlynedd ac 19 llain ar gyfer cyfnod y Cynllun yn gyffredinol, yn ogystal â safle tramwyl bach. Ymgwymerwyd â'r GTAA cymeradwy gan ymgynghorwyr arbenigol arc4, sy'n brofiadol mewn cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr. Ystyrir bod y GTAA cymeradwy yn gadarn wrth lywio'r strategaeth CDLI mewn perthynas â darparu Llety i Sipsiwn a Theithwyr.

Cwestiwn b) A yw'r GTAA yn nodi angen realistig am leiniau Sipsiwn a Theithwyr newydd, rhai parhaol a rhai tramwy, yn Sir y Fflint dros gyfnod y Cynllun?

Ymateb y Cyngor:

b.1 Mae'r GTAA cymeradwy [LDP-EBD-HP7](#) yn nodi'r asesiad o angen yn Nhabl 5.1 ar dudalen 49. Mae gwall yn rhes 'R' h.y. mae angen heb ei ddiwallu i gyfnod y Cynllun sy'n nodi 'R=20' tra bod paragraff 5.52 yn nodi'n gywir '*... a thros gyfnod y cynllun mae angen 19 llain ychwanegol*'. Dangosir dyfyniad o Dabl 5.1 isod y mae cyfrifiad 'Q' ac 'R' wedi'i nodi mewn coch / print bras.

M. Galw cyfredol am breswyl	M=26	
N. Galw preswyl yn y dyfodol (5 mlynedd)	N=5	
O. Galw preswyl yn y dyfodol (cyfnod y cynllun)	O=28	
P. Cyflenwad preswyl wedi'i gynllunio		P=35
Q. angen nas diwallwyd (5 mlynedd) M+N-P (26+5-35= -4)	Q=-4	
R. angen nas diwallwyd (Cyfnod y cynllun) M+O-P (26+28-35 =19)	R=20	

b.2 Felly, yr angen a nodwyd y dylid ei gyflawni dros gyfnod y Cynllun yw 19 llain. Mae'r GTAA yn dod i gasgliad ym mharagraff 5.57 '*Byddai'r dadansoddiad yn awgrymu gofyniad am ddarpariaeth tramwy graddfa bychan o hyd at 5 carafán*'. Ystyrir bod hyn yn cynrychioli angen realistig am gyfnod y Cynllun.

Cwestiwn c) A nodwyd nifer ddigonol o safleoedd a lleiniau?

Ymateb y Cyngor:

c.1 Mae'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd wedi nodi ym mholisi HN8 dri dyraniad ar gyfer safleoedd preswyl ac un dyraniad ar gyfer safle tramwy:

HN8.1 Magazine Lane, Ewlo

c.2 Mae'r dyraniad hwn yn cynrychioli estyniad i safle preswyl awdurdodedig a phreswylledig presennol yn Magazine Lane, Ewlo fel yr eglurir yn adran 6 Papur Cefndir 06 Dewis Safle Sipsiwn a Theithwyr [LDP-EBD-BP06](#).

c.3 Yn ymateb y Cyngor i C25 yng Nghwestiynau Rhagarweiniol yr Arolygydd [FCC001](#), cyfeiriodd y Cyngor at gais cynllunio ([061722](#)) a gafodd ei gyflwyno ar gyfer ad-drefnu'r safle presennol i ddarparu ar gyfer 10 llain ychwanegol, ac nad oedd perchnogion presennol y safle bellach yn cynnig mynd ymlaen â'r estyniad i'r safle. Mae ystyriaeth gychwynnol y cais cynllunio wedi arwain at ddogfennau diwygiedig sydd wedi bod yn destun ail-ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys cynllun safle wedi'i ddiwygio rywfaint, gan ddangos 9 llain ychwanegol wedi'u cynnwys o fewn ffin bresennol y safle (Atodiad 1).

HN8.2 Gwern Lane, Yr Hôb

- c.4 Yn ymateb y Cyngor i C25 yng Nghwestiynau Rhagarweiniol yr Arolygydd [FCC001](#), cyfeiriodd y Cyngor at gais cynllunio ([061722](#)) a gafodd ei gyflwyno ar gyfer 4 llain ychwanegol ar y safle a neilltuwyd (Atodiad 2). Nid yw'r cais cynllunio yn ymwneud â'r holl safle a ddyrannwyd gan nad yw'n cynnwys rhan ogleddol y darn o dir siâp lletem.

HN8.3 Glan yr Afon, Queensferry

- c.5 Mae'r dyraniad hwn yn cynrychioli estyniad i safle preswyl presennol sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn cael ei gynnal gan y Cyngor yn Queensferry fel yr eglurir yn adran 8 Papur Cefndir 06 Dewis Safle Sipsiwn a Theithwyr [LDP-EBD-BP06](#). Mae'r safle'n cynrychioli tir llwyd ac mae'n estyniad rhesymegol wedi'i ddiffinio'n dda i'r safle presennol. Gall ddarparu ar gyfer 10 llain ychwanegol a hefyd yn caniatáu i ailffurfweddu'r safle presennol i ddarparu gwell lleiniau ac amodau byw. Mae'r safle'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â phrosiect Llywodraeth Cymru i wella'r bont bresennol dros yr Afon Dyfrdwy (croesfan afon newydd ar gyfer traffig i'r gorllewin a newid y bont bresennol yn rhannol ar gyfer traffig i'r dwyrain). Bydd angen tir ychwanegol ar y prosiect hwn ochr yn ochr â llinell bresennol yr A494(T) a bydd hyn yn cael gwared ar y fynedfa gerbydau bresennol (ac is-safonol). Mae mynediad newydd i gerbydau yn cael ei ddarparu o Chemistry Lane gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r prosiect i gryfhau / ehangu'r bont. Bydd y mynediad newydd hwn yn gwasanaethu'r safle presennol, y safle dyrannu a'r busnes masnachol. Mae Atodiad 5 [LDP-EBD-BP06](#) yn dangos cynllun awgrymedig, er bod hyn wedi mynd heibio wrth i'r gwaith sy'n gysylltiedig ag ailadeiladu'r bont fynd rhagddo. Mae cynllun mwy diweddar (gweler Atodiad 3) yn dwyn ynghyd wahanol elfennau'r cynllun ond ni ddylid ystyried bod hwn yn derfynol ar hyn o bryd. Mae'r dyraniad yn dal i allu darparu 10 llain ychwanegol ac fe'i cefnogir gan Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei dderbyn.

- c.6 Nodir y lleiniau y bwriedir eu cyflawni ar y tri dyraniad ym mholisi HN1 o'i gymharu â'r sefyllfa ddiweddaraf yn y tabl isod:

Dyraniad	Lleiniau HN1	Lleiniau diwygiedig
HN8.1 Magazine Lane, Ewlo	6-8	9
HN8.2 Gwern Lane, Yr Hôb	6-8	4
HN8.3 Glan yr Afon, Queensferry	10	10
Cyfanswm	22-26	23

- c.7 Y sefyllfa ddiwygiedig o ran y tri safle a ddyrannwyd yw y byddant yn cyflawni ychydig yn llai na nifer y lleiniau a bennir yn CDLI y Ddogfen i'w Harchwilio gan y Cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r 23 llain yn dal i ddiwallu'r angen a nodwyd yn y GTAA o 19 llain dros gyfnod y Cynllun
- c.8 Mae dyraniad y safle tramwy (HN8.4) yn Ystâd Ddiwydiannol Parc y Castell yn y Fflint. Mae'r dyraniad ar safle tir llwyd a oedd yn gyn gyfleuster Amwynder Dinesig (ailgylchu gwastraff cartref) ac wedi'i leoli rhwng fferm solar (EN13.2) a

Phrif Ardal Gyflogaeth (PE2.14). Mae'r safle'n agos at ystod dda o wasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth yn y Fflint, sy'n Brif Ganolfan Gwasanaethau Haen 1, ac yn agos at lwybr teithio drwy'r Sir. Mae Papur Cefndir y Cyngor 06 Chwiliad Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr [LDP-EBD-BP6](#) yn cynnwys yn Atodiad 4 gynllun dangosol i ddarparu ar gyfer 6 llain tramwy ynghyd â swyddfa rheolwr safle (atodiad 4). O ganlyniad, gall y safle a ddyrannwyd ddiwallu'r angen a nodwyd yn y GTAA am safle tramwy o 5 llain. Mae'r safle'n eiddo i'r Cyngor a gellir ei gyflawni ymhell o fewn cyfnod y Cynllun.

Cwestiwn d) A yw'r safleoedd yn rhydd o gyfyngiadau datblygu sylweddol ac a oes gobaith realistig y bydd y safleoedd hyn yn cael eu darparu yn y tymor byr i'r tymor canolig?

Ymateb y Cyngor:

- d.1 Er bod yr angen a nodwyd yn y GTAA cymeradwy yn cwmpasu cyfnod y cynllun yn gyffredinol ac nid y tymor byr i ganolig yn unig, o ystyried lefel y diddordeb cyfredol mewn dwyn ymlaen yr holl safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun, mae pob gobaith y bydd y safleoedd hyn yn cael eu cyflawni'n dda o fewn cyfnod y cynllun.
- d.2 Mae dyraniad HN8.1 Magazine Lane, fel yr eglurir yn c) uchod yn ddarostyngedig i gais cynllunio ar gyfer 9 llain, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r safle mewn perchnogaeth breifat ac mae'r cynnig presennol i ail-ffurfweddu'r safle presennol yn osgoi'r costau ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â datblygu'r safle a ddyrannwyd fel estyniad i'r safle cymeradwy presennol. Nid oes unrhyw gyfyngiadau cynllunio sylweddol (cyfeirir at rwystr glas yn f) isod) ac, o ystyried y cais cynllunio presennol, mae bwriad clir gan y preswylwyr presennol i ddiwallu anghenion eu teulu estynedig.
- d.3 Mae dyraniad HN8.2 Gwern Lane, fel yr eglurir yn c) uchod yn ddarostyngedig i gais cynllunio ar gyfer 4 llain, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r safle mewn perchnogaeth breifat ac nid oes unrhyw gyfyngiadau cynllunio sylweddol. O ystyried y cais cynllunio presennol, mae bwriad clir gan y preswylwyr presennol i ddiwallu anghenion eu teulu estynedig.
- d.4 Mae'r dyraniad HN8.3 Glan yr Afon, fel yr eglurir yn c) uchod, yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chynllun Llywodraeth Cymru i wella pont yr A494(T) dros yr Afon Dyfrdwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amserlen ar gyfer y cynllun gyda dyddiad cychwyn adeiladu amcangyfrifedig o 2022. Mae'r safle presennol a safle'r estyniad yn eiddo i'r Cyngor. Y prif gyfyngiad cynllunio yw lleoliad y safle o fewn parth risg llifogydd C1, er bod y broblem hon wedi'i datrys fel y nodir yn yr ymateb i g) isod. Penododd Gwasanaeth Tai'r Cyngor ymgynghorwyr cynllunio ar ddechrau mis Mawrth 2021 i ddechrau paratoi cais cynllunio a PAC. Mae hyn yn fynegiant clir o ymrwymiad y Cyngor i gyflawni'r safle. Cynhaliwyd astudiaethau blaenorol mewn perthynas â halogiad o ddefnyddiau diwydiannol blaenorol a bydd y rhain yn cael eu hailystyried fel rhan o'r cais cynllunio sy'n cael ei sydd yn y broses ar hyn o bryd.

- d.5 Fel yr eglurwyd yn ymateb y Cyngor i gwestiwn c), mae dyraniad y Safle Tramwy yn eiddo i'r Cyngor ac mae modd ei gyflawni. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyllid dros dro ar gyfer y safle, ac yn ddarostyngedig i sicrhau caniatâd cynllunio, gellid cwblhau'r safle erbyn mis Mawrth 2022. Ni ystyrir bod unrhyw gyfyngiadau cynllunio sylweddol. Mae'r safle'n safle tir llwyd a ddefnyddiwyd fel canolfan ailgylchu gwastraff cartref yn flaenorol. Mae y tu allan i unrhyw ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Mae wedi'i ddiffinio'n dda, mae mynediad i gerbydau yno'n barod, ac mae llystyfiant yn ei sgrinio'n dda. Mae'r safle'n ddigon pell oddi wrth unedau diwydiannol ac eiddo preswyl cyfagos er mwyn peidio ag effeithio ar amwynderau, ond mae'n dal yn agos at yr ystod eang o gyfleusterau a'r gwasanaethau yn y dref. Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r safle fod yn rhan o'r datblygiad fferm solar cyfagos i ddarparu isadeiledd cynhyrchu (rhoddwyd caniatâd cynllunio) ac roedd yn elwa ar ystod eang o astudiaethau cefndirol gan gynnwys halogiad. Bydd y rhain yn cael eu hailystyried fel rhan o gais cynllunio. Nid yw Uwchgynllun y Fflint yn cynnwys unrhyw gynigion penodol ar gyfer y safle a ddyrannwyd ac nid oes unrhyw anghytundeb ag o.
- d.6 Cynigiwyd y safle tramwy gan dîm Tai'r Cyngor a'i gymeradwyo gan y Cyngor fel rhan o'r Cynllun, yn gyntaf ar gyfer ymgynghoriad i'w archwilio gan y cyhoedd ym mis Gorffennaf 2019, ac yna i'w gyflwyno fel cynllun cadarn ym mis Medi 2020.
- d.7 Mae'r safle wedi'i nodi ar gyfer safle tramwy o faint cymedrol yn hytrach nag at ddefnydd preswyl parhaol ac mae'n unol â'r gofyniad a nodwyd yn y GTAA cymeradwy. Pwrpas safle tramwy yw darparu lleoliad addas i gyfeirio teithwyr ato, sydd naill ai mewn lleoliad diawdurdod neu sydd ond angen aros am gyfnod byr. Mae'r safle yn y Fflint yn agos at yr A548, llwybr teithio hysbys gyda theuluoedd yn ymweld â Ffynnon St Winefred's yn Nhreffynnon, yn ogystal â bod yn agos at nifer o wersylloedd diawdurdod blaenorol.
- d.8 Mae'r safle'n gyn ganolfan ailgylchu amwynder dinesig gyda chompownd ac wyneb caled a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Mae cynllun drafft ar gyfer 6 llain tramwy a darpariaeth amwynder yn elwa o gynnig cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio.
- d.9 Mae Uwchgynllun y Fflint wedi bod yn gynllun adfywio eang ar gyfer y dref. Mae'n dod i ben yn 2021 ac nid oes ganddo statws canllawiau cynllunio atodol. Er bod yr Uwchgynllun wedi cyflawni nifer o brosiectau adfywio llwyddiannus iawn, ni wnaeth unrhyw gynigion ar gyfer y safle hwn. Er ei fod yn cyfeirio'n gyffredinol at wella cysylltiadau hamdden â llwybr yr arfordir, nid yw hyn yn cynnwys defnyddio'r ffordd fynediad i'r safle nac unrhyw lwybrau trwyddo, gan nad oes unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus.
- d.10 Er bod y Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r defnydd o'r safle fel safle tramwy gan eu bod yn teimlo ei fod yn gwrthdaro â'r uwchgynllun sy'n dod i ben yn fuan a'r 'potensial hamdden', yn amlwg nid oedd ganddynt wrthwynebiad tebyg i

ddefnyddio'r safle ar gyfer ailgylchu a chael gwared ar wastraff. Doedden nhw chwaith ddim yn gwrthwynebu defnyddio tir cyfagos fel fferm solar, neu ddefnyddio tir gyferbyn, gan nodi man gwyrdd yn yr uwchgynllun fel compownd storio. O ystyried y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor yn aneglur ynghylch y niwed y byddai defnydd cymedrol ac anaml y safle fel safle tramwy yn ei achosi, o'i gymharu â'i ddefnydd parhaol blaenorol ar gyfer gwaredu gwastraff.

- d.11 O ran pryderon a godwyd ynghylch addasrwydd mynediad i'r safle, mae dau bwynt mynediad o'r briffordd gyhoeddus a oedd yn hen ddigon i wasanaethu'r safle yn ei ddefnydd gwaredu gwastraff ailgylchu 7 diwrnod yr wythnos. Fel y mae'r data enghreifftiol yn atodiad 5 yn ei ddangos, roedd llif traffig dyddiol sylweddol i'r safle ac oddi yno gan ystod o gerbydau gwasanaethu a thrigolion. Mae'r arolwg a gynhaliwyd dros gyfnod o 4 wythnos yn yr haf a chyfnod o 4 wythnos yn y gaeaf yn 2014 yn dangos ffigur cyfartalog o 166 o gerbydau'r dydd yn yr haf a 104 o gerbydau'r dydd yn y gaeaf. Y nifer uchaf o gerbydau ar gyfer un diwrnod oedd 278. Mae'r lefelau hyn o draffig yn llawer uwch na'r hyn sy'n debygol o gael ei gynhyrchu gan safle tramwy o 6 llain.

Cwestiwn e) A yw'r dull a ddefnyddir i nodi safleoedd yn cydymffurfio â gofynion Cylchlythyr 005/2018?

Ymateb y Cyngor:

- e.1 Mae'r Cyngor wedi nodi ei ddull o nodi safleoedd yn Chwiliad Safle Sipsiwn a Theithwyr BP06 [LDP-EBD-BP6](#). Ni arweiniodd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol [LDP-KPD-CS1](#) na'r Alwad Bellach ddilynol am Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer safleoedd Mwynau, Gwastraff a Sipsiwn [LDP-KPD-CS2](#) at unrhyw safleoedd yn cael eu cynnig ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Nid oedd y Cyngor yn ei ystyried yn ddefnydd da o adnoddau cyfyngedig i asesu 700 a mwy o safleoedd ymgeisiol pan na chawsant eu cyflwyno gyda'r bwriad o gael eu datblygu fel Safle Sipsiwn a Theithwyr. Yn hytrach, asesodd y Cyngor nifer o ddarnau o dir sy'n eiddo i'r Cyngor, gan ddefnyddio set o feini prawf asesu cyfyngiadau safonol, fel y nodir yn Atodiad 1 o BP6. Ategwyd hyn gan asesiad annibynnol gan ymgynghorydd cynllunio a oedd wedi ystyried y meini prawf cynaliadwyedd ym mharagraff 37 o Gylchlythyr 005/2018. Nododd asesiad yr ymgynghorydd yn Atodiad 2 o BP06 bellter nifer o'r safleoedd o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau yn gynaliadwy a hefyd anaddasrwydd sawl safle o ran galluogi safonau byw boddhaol.
- e.2 Mae'r Cyngor yn elwa o gael Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr rhagweithiol a oedd wedi bod yn gweithio gyda'r gymuned deithiol fel rhan o'r Alwad Bellach am Safleoedd. Yn deillio o drafodaethau gyda nifer o deuluoedd presennol ar safleoedd sefydledig, hysbyswyd y Swyddog Cyswllt am yr angen am leiniau ychwanegol i ddiwallu eu hanghenion teulu estynedig. Mae Safle Magazine Lane yn agos at ymyl Ewlo sy'n Ganolfan Gwasanaethau Lleol Haen 2 gydag ystod o wasanaethau, cyfleusterau a thrafnidiaeth ac mae mewn lleoliad cynaliadwy. Mae safle Gwern Lane, Yr Hôb rhwng nifer o aneddiadau yn Sir y Fflint, sef Yr Hôb,

Caergwrle, Cefn y Bedd ac Abermorddu ac yn Wrecsam, aneddiadau Llai a Gwersyllt. Mae'r ystod o wasanaethau, cyfleusterau, trafnidiaeth a chyflogaeth yn yr aneddiadau hyn yn arwain at leoliad cynaliadwy, yn hytrach na safle cefn gwlad agored anghysbell neu ynysig. Mae safle Glan yr Afon sy'n eiddo i'r Cyngor o fewn ffin anheddiad Queensferry, sy'n Brif Ganolfan Gwasanaeth Haen 1. Mae'n amlwg mewn lleoliad cynaliadwy gan ystyried yr ystod o wasanaethau, cyfleusterau, cyflogaeth a thrafnidiaeth yn ardal Glannau Dyfrdwy. Yn wahanol i'r ddau ddyraniad arall ar gyfer safleoedd preswyl, bydd safle Glan yr Afon ar gael ar gyfer anghenion cyffredinol. Ymhob achos, mae'r cynllun yn ymateb yn gadarnhaol i ble mae teithwyr ac aelodau'r teulu am fyw yn y dyfodol, yn hytrach na lle mae'r cynllun neu eraill eisiau iddyn nhw fyw.

Cwestiwn F) A yw'n briodol bod y safle yn Magazine Lane, Ewlo yn y lletem werdd?

Ymateb y Cyngor:

- f.1 Mae polisi cynllunio cenedlaethol ar rwystrau glas (lleiniau glas a lletemau glas) wedi'i nodi ym mharagraffau 3.64 i 3.78 o PPW11. O ran safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, mae mwy o ganllawiau pwrpasol gan Lywodraeth Cymru ar gael yng Nghylchlythyr 005/2018. Mae paragraff 55 yn nodi bod *'safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd yn y Llain Las neu'r lletemau glas yn debygol o fod yn ddatblygiad amhriodol'*. Aiff y canllaw ymlaen i nodi bod *'polisi cynllunio cenedlaethol ar Leiniau Glas neu letemau glas yr un mor berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a defnyddiau preswyl eraill. Dylid archwilio lleoliadau amgen cyn ystyried lleoliadau Llain Las neu letem las'*.
- f.2 Nid oedd dyraniad HN8.1 yn safle 'newydd', gan ei fod yn cynnwys estyniad i safle Sipsiwn gweithredol a phresennol a ganiateir. Nid yw'r Cylchlythyr yn darparu cyngor mewn perthynas ag estyniad i safle sy'n bodoli eisoes o fewn rhwystr glas. Yr ethos y tu ôl i'r dyraniad yw diwallu anghenion y teulu estynedig sy'n deillio o'r safle presennol, a byddai'n amhriodol ystyried diwallu'r angen hwnnw ar safle arall. Er bod Arolygydd blaenorol wedi ystyried mater GB, wrth roi caniatâd ar gyfer y safle sefydledig, roedd yr angen i letya'r teuluoedd yn amlwg yn gorbwyso'r niwed. Ar ôl i Arolygydd sefydlu'r egwyddor honno, byddai wedi bod yn afresymol peidio ag ystyried sut y gallai anghenion y teuluoedd estynedig barhau i gael eu diwallu ar y safle hwn. Ar adeg yr ymgynghoriad CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd, ystyriwyd bod hyn drwy estyniad cymedrol i'r safle. Mae bellach wedi newid gan nad yw'r estyniad arfaethedig yn mynd yn ei flaen gan y preswylwyr, sydd bellach yn ceisio diwallu'r angen drwy ad-drefnu'r safle presennol. Gellir gwneud hyn yn gyfan gwbl o fewn ffin y safle presennol. O ystyried y lleiniau presennol o faint hael, mae lle ar gyfer lleiniau ychwanegol heb gymryd tir o safle'r estyniad. Dyma'r dull a ffefrir gan y preswylwyr drwy gais cynllunio.

f.3 Y cynllun arfaethedig diweddaraf yw cynllun o ansawdd uwch o'i gymharu â'r cynllun presennol, gyda phob llain yn cynnwys ei amwynder ei hun. Heb os, mae'r nifer cynyddol o leiniau a'r carafanau statig ychwanegol yn cynnwys datblygiad adeiledig ychwanegol. Fodd bynnag, rhaid cymharu hyn â'r cynllun cymeradwy a oedd yn cynnwys ystafell fyw wedi'i hadeiladu o frics ar gyfer pob llain. Hyd yma, dim ond un o'r ystafelloedd byw sydd wedi'i hadeiladu. Mae'r cynllun arfaethedig yn ymgorffori'r ystafell fyw hon, ond ni chynigir unrhyw ystafelloedd byw pellach. Gan fod ansawdd carafanau statig modern mor dda, mae'r preswylwyr o'r farn nad oes angen cael ystafelloedd byw ar wahân. O'i ystyried ochr yn ochr â'r cynllun sy'n llawer gwell, ni ystyrir bod effaith annerbyniol ar natur agored y rhwystr glas ac mae'n well nag ymestyn datblygiad adeiledig i mewn i'r safle estyniad. Ystyrir bod ad-drefniad arfaethedig y safle presennol yn briodol o fewn y rhwystr glas.

Cwestiwn G) A yw'n briodol bod y safle yng Nglan yr Afon, Queensferry o fewn parth risg llifogydd C1?

Ymateb y Cyngor:

g.1 Mae dyraniad HN8.3 Glan yr Afon, Queensferry yn estyniad i safle hirsefydlog sydd wedi'i leoli ym mharth C1 fel y'i diffinnir ar Fap Cyngor Datblygu CNC. Mae safle preswyl Sipsiwn yn ddefnydd diamddiffyn iawn ac mae angen defnyddio'r profion cyfiawnhad yn TAN15:

- i) mae'r safle mewn ardal C1 ac yn elwa o amddiffynfeydd llifogydd ar hyd yr Afon Dyfrdwy
- ii) mae ei leoliad yn angenrheidiol i fodloni strategaeth y Cyngor ar gyfer ehangu'r safle presennol i ddiwallu rhan o'r angen a nodwyd am lety Sipsiwn a Theithwyr, yn unol â'r Ddeddf Tai. Mae angen i Lywodraeth Cymru hwyluso a gwella pont yr A494 dros yr Afon Dyfrdwy a darparu mynediad newydd i'r safle teithwyr presennol;
- iii) mae'r safle ar dir llwyd
- iv) mae'r safle a'r cynnig wedi bod yn destun Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, sydd wedi dangos y gellir rheoli canlyniadau llifogydd yn dderbyniol. Mae hyn wedi ei nodi yn y Datganiad Tir Cyffredin gyda CNC [SOCG006](#) ac ar sail y dystiolaeth newydd hon nid yw CNC yn gwrthwynebu'r dyraniad mwyach.

g.2 Yng ngoleuni'r uchod, mae'r Cyngor wedi dangos bod y dyraniad yn briodol o fewn parth risg llifogydd C1.

Cwestiwn h) A yw Polisi HN9 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer asesu cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ychwanegol, ac a yw'n gyson â'r polisi cenedlaethol?

Ymateb y Cyngor:

h.1 Mewn ymateb i gynrychiolaeth (id1141) roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod meini prawf a) a b) yn ogystal â'r cyfiawnhad rhesymedig ym mharagraff 11.37 yn groes i'r polisi cenedlaethol. Mae Atodiad B o Gylchlythyr 005/2018 yn nodi y byddai gofynion polisi i arddangos 'angen nas diwallwyd yn yr Asesiad Llety

Sipsiwn a Theithwyr' yn gweithredu yn erbyn rhyddid i symud Sipsiwn a Theithwyr a allai fod eisiau datblygu eu safleoedd eu hunain. Ni ddylid rhoi cyfyngiadau o'r fath ar Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r cylchlythyr yn glir bod yn rhaid i bolisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf fod yn deg, yn rhesymol, yn realistig ac yn effeithiol wrth ddarparu safleoedd ac ni ddylent ddiystyru na gosod cyfyngiadau gormodol ar ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (paragraff 49). Cytunodd y Cyngor, yn ei ymateb, â'r sylw a'r diwygiadau a ganlyn:

- Dileu meini prawf a) a b)
- Ail-rifo'r meini prawf
- Diwygio paragraff 11.37 i ddweud 'Er gwaethaf darpariaeth yn y Cynllun drwy ddyraniadau, efallai y caiff cynigion datblygu ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr eu cyflwyno yn ystod cyfnod y Cynllun, yn enwedig er mwyn diwallu angen penodol.

Mae'r polisi hwn ar ffurf polisi sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer asesu cynigion o'r fath a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â fframwaith polisiâu'r Cynllun. Bydd angen i bob ymgeisydd ddangos bod angen penodol na ellir ei ddiwallu ar safleoedd presennol neu safleoedd gyda chaniatâd cynllunio'.

- h.2 Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw hefyd yn yr un gynrychiolaeth at y ffaith bod y cyfiawnhad rhesymegol ym mharagraff 11.38 yn nodi "Dylai safleoedd gael eu lleoli ar neu'n agos at y prif lwybrau teithio er hwylustod" ac y byddai hyn yn fwy cymwys i safleoedd cludo yn hytrach na rhai o natur barhaol. Mae'r Cyngor yn ystyried y dylid diwygio brawddeg agoriadol paragraff 11.38 fel a ganlyn 'Dylai safleoedd allu cael eu gwasanaethu gyda seilwaith priodol a bod mewn lleoliad da o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau i ddiwallu anghenion preswylwyr'.

Cwestiwn i) Gan ystyried Cylchlythyr 005/2018, a yw'r dull yn gywir i'r graddau y mae rhagdybiaeth o blaid safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd ar dir y tu allan i aneddiadau diffiniedig, yn ddarostyngedig i fodloni'r meini prawf?

Ymateb y Cyngor:

- i.1 O ystyried bod yr Arolygydd wedi cwestiynu'r dull a gymerwyd gan y Cyngor wrth nodi dyraniadau yng nghwestiwn e), tybir bod y cwestiwn hwn yn ymwneud â geiriad polisi HN9 o ran Llety i Sipsiwn a Theithwyr.
- i.2 Mae Cylchlythyr 005/2018 yn darparu arweiniad i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar 'Nodi safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' ym mharagraff 35 ymlaen. Mae paragraff 38 yn nodi '*Wrth benderfynu ble i ddarparu ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, yn gyntaf rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried lleoliadau cynaliadwy o fewn neu gerllaw ffiniau aneddiadau presennol gyda mynediad at wasanaethau lleol e.e., lleoliadau addysg, gwasanaethau iechyd a siopau*'. Yna mae paragraff 39 yn nodi '*Gellir ystyried safleoedd yng nghefn gwlad, oddi wrth aneddiadau presennol, ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr os oes diffyg lleoliadau cynaliadwy addas o fewn neu gerllaw ffiniau aneddiadau presennol*'. Yna mae paragraff 40 yn dechrau gyda'r datganiad '*Rhaid i bob safle a ystyrir fel opsiynau ar gyfer*

dyraniad safle mewn cynllun datblygu gael asesiad o'i effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn unol â gofynion arfarniad o gynaliadwyedd'. Llif y paragraffau hyn yw eu bod yn berthnasol i nodi dyraniadau safle mewn cynllun datblygu.

i.3 Mae'r Cylchlythyr yn cynnwys canllawiau ar wahân mewn perthynas â 'pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf' ac mae paragraff 49 yn nodi '*...Dylai polisïau o'r fath sy'n seiliedig ar feini prawf gadw at ofynion cynaliadwyedd, gan ystyried ystyriaethau safle a nodir o dan baragraff 37 a gofynion polisi cynllunio cenedlaethol eraill a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol*'. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n cyfeirio at y dull dilyniannol o weithredu ym mharagraffau 38 a 39.

i.4 Os yw'r Arolygydd o'r farn bod angen dull dilyniannol o weithredu o fewn geiriad y polisi, awgrymir y gellid ail-eirio polisi HN9 fel a ganlyn:

'Bydd cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd yn cael eu ffafrio o fewn aneddiadau, neu ffiniau aneddiadau cyfagos, lle byddai'r datblygiad yn cynrychioli estyniad rhesymegol i'r anheddiad.

Lle nad oes lleoliadau addas yn yr aneddiadau presennol neu'n agos atynt, bydd lleoliadau cefn gwlad agored yn cael eu hystyried.

Ymhob achos, dylai'r cynnig fodloni'r meini prawf canlynol... ..'

Cwestiwn J) Gyda'i gilydd, a fyddai Polisïau HN8 a HN9 yn diwallu'r angen a nodwyd?

Ymateb y Cyngor:

j.1 Mae Polisi HN8 yn ceisio diwallu'r angen a nodwyd am leiniau sy'n deillio o'r GTAA drwy dri dyraniad ar gyfer safleoedd preswyl ac un dyraniad ar gyfer safle tramwy. Mae Polisi HN9 yn bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf i ystyried unrhyw gynigion Sipsiwn a Theithwyr eraill sy'n codi dros gyfnod y Cynllun. Nid yw ei rôl yn cael ei hystyried yn hanfodol wrth ddiwallu'r angen a nodwyd, oni bai bod problem anhysbys yn codi ar un o'r safleoedd preswyl a ddyrannwyd.

j.2 Mae'r Cyngor yn parhau i dderbyn ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd teuluol preifat bach, yn bennaf ar gyrion anheddiad neu safleoedd cefn gwlad agored a bydd y rhain yn cael eu pennu yn ôl eu rhinweddau unigol. Mae'r ceisiadau cynllunio canlynol yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a darperir dolen ar gyfer pob un i fanylion y cais cynllunio ar y wefan.

[061368](#) Ashwood House, Church Lane, Ewlo, 1 llain

[061842](#) Brier Lodge, Rhyddyn Hill, HCAC, 2 lain

[060591](#) Byngalo Tŷ Dŵr, Tanlan, 4 llain,

[060729](#) ger Nationwide Caravan Sales, Tanlan, 2 lain,

[062368](#) Gladstone Way, Penarlâg, 1 llain

